| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad** | 18 Ebrill 2024 |
| **Teitl** | Gwasanaeth Edrychiad Stryd |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones |
| **Awdur** | Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi'r pwysigrwydd o greu ymdeimlad o falchder bro drwy sicrhau bod cymunedau Gwynedd yn lan ac yn daclus. Gall amgylchedd leol o ansawdd gwael gael effaith pellgyrhaeddol a negyddol. Fe all effeithio ar les, atal pobl rhag defnyddio mannau gwyrddion ac mae hefyd yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, gall effeithio ag amharu ar yr economi a thwristiaeth.

1.2. Er mwyn ceisio cyrraedd ein nod o wireddu Cymunedau Glan a Thaclus drwy Wynedd, rydym bellach wedi ymgorffori'r gwasanaethau canlynol o fewn un Gwasanaeth newydd, sef y Gwasanaeth Edrychiad Stryd, er mwyn gallu canolbwyntio ar edrychiad a delwedd ein strydoedd a ffyrdd:

- Glanhau Strydoedd
- Gorfodaeth Stryd
- Tîm Tacluso Ardal Ni

1.3. Mae'n amserol felly i ddiweddaru'r Aelodau ar ein cynnydd wrth gyfuno'r gwasanaethau yma a hefyd rhannu gweledigaeth yr Adran ar gyfer gwella glendid a thaclusrwydd ein trefi a'n pentrefi i'r dyfodol (un o ddyheadau blaenoriaeth y Cyngor am y 5 mlynedd nesaf).

**2. Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol**

2.1 Yn dilyn ailstrwythuro'r Adrannau Amgylchedd a Phriffyrdd a Bwrdeistrefol yn 2022, daeth cyfle i gynnal adolygiad lefel uchel o'r Gwasanaeth Glanhau Strydoedd er mwyn darganfod a oedd unrhyw rwystrau yn ei atal rhag gweithio'n effeithiol ac effeithlon.

2.2 O ganlyniad i'r adolygiad, fe ddaeth yn amlwg y byddai'n fuddiol i ymgorffori'r gwasanaethau Glanhau Stryd, Gorfodaeth Stryd a'r Tîm Tacluso o fewn un Gwasanaeth Edrychiad Stryd gan y byddai hyn yn cynnig ymagwedd cyd gysylltiedig o gadw ein cymunedau'n lân ac yn daclus i'n trigolion. I'r perwyl hwn, penodwyd Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd ym mis Tachwedd y llynedd a sefydlwyd Grŵp Tasg er mwyn gweithredu ar yr argymhellion / gwelliannau a oedd yn deillio o'r adolygiad.

2.3 Mae’r adroddiad hwn yn canolbwyntio’n benodol ar gynnydd y Gwasanaeth Edrychiad Stryd wrth wireddu argymhellion yr adolygiad. Mae hefyd yn rhoi trosolwg bras o waith a pherfformiad y Tîm Gorfodaeth Stryd, Tim Tacluso (Ardal Ni) a’r Treialon Biniau Clyfar.

## 3. Trefniadau / Gweithdrefnau Newydd

### Glanhau Strydoedd

3.1 Amlygodd yr adolygiad nifer o sefyllfaoedd i'w gwella. Fodd bynnag, barnwyd bod angen mynd i'r afael â deg prif fater yn gyflym. Mae’r argymhellion i oresgyn y materion hyn, yn ogystal â’r cynnydd hyd yma arnynt, fel a ganlyn:

| Argymhelliad | Cynnydd | Dyddiad cwblhau / targed gorffen |
|---|---|---|
| 1. Argymhellir bod yr holl Asesiadau Risg a Gweithdrefnau Gweithredu Diogel yn cael eu hadolygu a’u hailgyhoeddi i’r gweithlu | Erbyn hyn, mae'r holl Asesiadau Risg a Gweithdrefnau Gweithredu Diogel wedi eu hadolygu, eu diweddaru a’u dosbarthu i’r gweithlu. Mae'r dogfennau hyn wedi'u harchwilio'n a'u cymeradwyo fel rhan o archwiliad gan y BSI i achrediad 45001 yr Adran. | 20.10.23 |
| 2. Dylid darparu canllawiau i’r gweithlu sy’n cadarnhau eu hamseroedd cychwyn | Mae'r gweithlu bellach wedi derbyn arweiniad a chyfarwyddiadau i safoni eu horiau gwaith. Mae'r trefniadau yn gweithio'n fwy effeithiol ers hynny. | 27.10.22 |
| 3. Argymhellir penodi Rheolwr a llunio strwythur newydd | Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Edrychiad Stryd wedi ei benodi a strwythur drafft wedi ei ddatblygu. | 01.09.23 |
| 4. Argymhellir adolygu’r cylchdeithiau presennol er mwyn darganfod a ydynt yn addas at y diben | Mae eisoes wedi’i gydnabod fod angen diweddaru'r cylchdeithiau glanhau presennol yn llwyr. I’r perwyl hwn, mae’r Adran bron a chwblhau’r proses gwerthuso ar systemau TG arbenigol ar gyfer optimeiddio cylchdeithiau a bydd y cwmni llwyddiannus wedi’i benodi maes o law. | 30.04.24 |

| | | |
|---|---|---|
| 5. Argymhellir cynnal adolygiad llawn o'r sefyllfa goramser | Y flaenoriaeth gychwynnol fydd parhau i gynnal lefel gwasanaeth sydd ar hyn o bryd yn cynnwys ymrwymiadau goramser. Dros amser, rhagwelir y bydd technoleg newydd, ad-drefnu'r cylchdeithiau a gwelliannau i batrymau sifft yn gwella effeithiolrwydd y Gwasanaeth. | Medi, 2024 |
| 6. Cynnal adolygiad o'r Fflyd | Y bwriad yw moderneiddio fflyd Glanhau Strydoedd yn unol ag egwyddorion y Cynllun Fflyd Werdd. Mae grŵp tasg wedi ei ffurfio i asesu cerbydau sydd wedi bod ar logi am gyfnod hir ac i lunio strategaeth mewn perthynas â threfniadau fflyd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, dim ond ar ôl i'r adolygiad o'r cylchdeithiau gael ei gwblhau y gallwn benderfynu yn iawn ar y math a'r nifer o gerbydau sydd eu hangen i gynnal gwasanaeth effeithiol ac effeithlon. Bydd unrhyw benderfyniadau a wneir yn cael eu gwneud gyda chymorth y rheolwr fflyd. | Parhaol gydag adolygiad cynnydd yn 2024 |
| 7. Cynnal adolygiad llawn o swydd ddisgrifiadau'r gweithlu | Bu i gyfarfodydd gymryd lle gyda'r gweithlu yn ystod 2023 er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u rolau a sicrhau bod eu swydd ddisgrifiadau yn adlewyrchu eu gwir amgylchiadau. Cyflwynwyd y swydd ddisgrifiadau diwygiedig i'w hail arfarnu ym mis Tachwedd y llynedd. Fodd bynnag, nid oedd newid i'w graddfeydd. Er hynny, mae'r undebau yn awyddus i ni ail-edrych ar y sefyllfa a bydd hyn yn cymryd lle maes o law. | 04.03.24 |
| 8. Trosglwyddo cyfrifoldebau gweinyddol | Mae'r trefniadau gweinyddol a oedd yn arfer cael eu gweithredu gan y Gwasanaeth Casglu Sbwriel ac Ailgylchu wedi'u trosglwyddo i Uned Fusnes yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC erbyn hyn. | 01.02.24 |
| 9. Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r holl waith da a wneir gan y Gwasanaeth | Mae cyfres o negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at waith y Gwasanaeth Glanhau Strydoedd wedi'u rhyddhau yn ddiweddar. Bydd hyn yn parhau ac yn cynnwys diweddariadau ar arfer da ac arloesedd. | 04.10.23 a pharhaol |

| | | |
|---|---|---|
| 10. Cynnal ymgynghoriad dilynol mewn perthynas â'r Tim Tacluso o fewn y 12 mis nesaf i benderfynu a yw ein trigolion wedi gweld gwelliant yng nglanweithdra a thaclusrwydd y Sir | Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cynhyrchu arolwg rhanddeiliaid ar-lein yn y dyfodol agos. Bydd yr ymgynghoriad yma'n monitro cynnydd, lefelau boddlonrwydd ac yn ystyried datblygiadau pellach a gwelliannau parhaus i'r dyfodol. | Medi 24 |

3.2 Yn dilyn ymlaen o argymhelliad 9 uchod, mae gweithredoedd y timau glanhau strydoedd wedi tueddu i gael ei anwybyddu oherwydd eu gwelededd cyfyngedig gan eu bod yn cychwyn eu gwaith yn gynnar iawn yn y bore a chyn i'r mwyafrif o'r cyhoedd fynd o gwmpas eu harferion dyddiol. I'r perwyl hwn, fe gyflwynodd yr Adran bid am arian refeniw'r llynedd ar gyfer gwireddu Cynllun Peilot Canol Tref a fyddai'n eu gwneud yn fwy gweladwy.

3.3 Gallwn gadarnhau fod y bid wedi bod yn llwyddiannus a bydd trefniadau ar gyfer sefydlu glanhawyr trefol gyda chert/sugnydd sbwriel trydan yn cychwyn maes o law. Y bwriad yw lleoli'r glanhawyr mewn ardaloedd trefol dethol ym mhob un o'r tair ardal weithredol a newid eu horiau gwaith o rhwng 05:00 - 13:00 fel yn bresennol, i 08:00 - 16:00 fel eu bod yn weladwy i'r cyhoedd.

**Gorfodaeth Stryd**

3.4 Penodwyd wardeiniaid ychwanegol i fynd i'r afael â phroblemau a oedd wedi codi ers cyfnod y pandemig ble gwelwyd mwy o fan ysbwriel yn cael ei greu, biniau yn llenwi'n gynt a phroblemau baw ci yn cynyddu. Mae ein wardeiniaid wedi bod yn brysur yn codi ymwybyddiaeth ac yn patrolio cymunedau problemus ar draws y Sir.

3.5 Mae Cadwch Cymru'n Daclus yn cynnal adolygiad annibynnol o safon glendid y stryd yn flynyddol. Dyma brif ganfyddiadau o'u hadolygiad 2023:

- Mae glendid cyffredinol strydoedd Gwynedd wedi gweld ychydig gwelliant eleni.
- Mae patrwm cyson i ddosbarthiad sbwriel yng Ngwynedd, gyda strydoedd tai rhes mewn lleoliadau mwy trefol yn fwy tebygol o fod â phroblemau sbwriel.
- Bu cynnydd yn nifer y cynwysyddion diodydd, ac eithrio cartonau a chwpanau bwyd cyflym, ar ein strydoedd ers y llynedd.
- Mae baw ci wedi lleihau ychydig ers y flwyddyn flaenorol.

3.6 Datgenir i archwiliadau glendid gael eu cynnal ar 141 o drawstoriadau ar wahanol strydoedd o fewn y sir a bod 95% o'r strydoedd a archwiliwyd wedi derbyn gradd B neu uwch, sef strydoedd yr ystyrir bod lefel derbyniol o lanweithdra gan y cyhoedd. Rydym yn falch o adrodd fod ein perfformiad eleni yn uwch na chyfartaled Cymru.

3.7 Gan fod y Gwasanaeth yma wedi cyfuno â'r Gwasanaeth Glanhau Strydoedd a'r Tim Tacluso, mae'r cyd-weithio a rhannu adnoddau wedi cryfhau. Mae eu gwaith yn plethu'n aml; felly, gobeithir y bydd y cyfuniad yn arwain at lefelau uwch o lanweithdra a thaclusrwydd o fewn y Sir gan hefyd gyrraedd ein nod o greu cymunedau glan a thaclus ac ymdeimlad o falchder bro.

**Tim Tacluso (Ardal Ni)**

3.8 Ers sefydlu'r Tim Tacluso, mae eu gwaith wedi cyfrannu yn sylweddol at wella edrychiad a delwedd ein strydoedd a'n hamgylchedd ac rydym yn falch o adrodd eu bod wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan Aelodau, chynghorau cymuned a thref â thrigolion lleol.

3.9 Datblygwyd hwb ar gyfer gallu cysylltu â'r timau sydd wedi eu lleoli o fewn y Porth Aelodau. Rhoddir mynediad i'r holl wybodaeth isod drwy'r hwb:

- Ffurflen ddigidol (cais am waith)
- Cylchdeithiau'r timau ar fap rhyngweithiol
- Holiadur boddhad cwsmer
- Lluniau/manylion o waith diweddaraf y timau.

3.10 Bwriedir darparu mynediad i'r hwb i gynghorau cymuned a thref er mwyn caniatáu iddynt gyflwyno ceisiadau am waith a rhannu adborth. Bydd neges yn cael ei anfon iddynt faes o law i'w hysbysu o'r datblygiad yma. Byddwn hefyd yn cynnig ymweld â'r Fforymau Ardal/Cyfarfodydd Cynghorau Cymuned a Thref i'w hatgoffa o'r drefn ac i hyrwyddo egwyddorion y timau gan roi pwyslais ar gydweithio.

3.11 Mae'r Tim Tacluso yn parhau i fod yn brysur iawn ac mae llwyddiannau diweddar yn cynnwys ffocws manwl ar edrychiad Bangor Uchaf, golchi strydoedd a dileu gwm cnoi yn ganol trefi Dolgellau, Blaenau Ffestiniog a chanol Dinas Bangor.

**4. Treialon Biniau Clyfar**

4.1 Ers dechrau'r tymor Haf llynedd mae'r Adran wedi bod yn treialu 5 bin clyfar mewn lleoliadau prysur trwy'r Sir (Bangor, Caernarfon, Llanberis a Pwllheli ). Oherwydd teclyn cywasgu o fewn y biniau yma mae maint y bin yn gyffelyb i rhwng 7 a 10 gwaith gymaint â bin arferol.

4.2 Mae'r biniau yn hollol werdd ac yn defnyddio ynni solar i ailwefru'r batri.

4.3 Mae'r biniau yma yn gallu cyfathrebu negeseuon efo'r swyddfa cefn, yn gynnwys neges bod y bin yn llawn neu angen gwasanaeth. Mae'r gwaith yma yn parhau i ddatblygu.

4.4 Y canlyniad hyd yn hyn ydi bod y Cyngor heb dderbyn cwynion am finiau gorlawn ble mae'r biniau wedi ei sefydlu mewn lleoliadau brysur iawn.

4.5 Y bwriad i'r dyfodol fydd i ychwanegu i'r niferoedd o finiau clyfar mewn ardal twristiaeth brysur drwy fanteisio ar grantiau.

## 5. Camau Nesaf

5.1 Fe welir isod grynodeb o brif flaenoriaethau'r Gwasanaeth Edrychiad Stryd:

| | |
|---|---|
| a - Glanhau Strydoedd | Byddem yn parhau gyda'r gwaith o wireddu argymhellion yr adolygiad Glanhau Stryd yn llawn gan weld y system optimeiddio yn galon i'r gwasanaeth.<br><br>Gwireddu'r Cynllun Peilot Canol Tref gan leoli'r glanhawyr mewn ardaloedd trefol dethol ym mhob un o'r tair ardal. |
| b - Gorfodaeth Stryd | Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn debygol o ryddhau Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Cenedlaethol sy'n golygu y bydd rhaid i'r Adran ddiweddaru eu Cod Ymarfer.<br><br>Rhagwelir y bydd y gwaith yma yn flaenoriaeth i'r Tîm Gorfodaeth Stryd. |
| c - Tim Tacluso | Rydym am anelu i gryfhau perthnasau'r Tim Tacluso drwy gyd-weithio gyda mudiadau/cymunedau lleol gan roi sylw penodol i ardaloedd agored cyhoeddus. |
| ch - Biniau Clyfar | Rydym yn bwriadu ychwanegu i'r niferodd o finiau clyfar drwy raglenni buddsoddi ffyniant bro a chymunedol Llywodraeth y DU. |

5.2 Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, bydd unrhyw sylwadau sydd gan yr Aelodau yn cael eu cyflwyno i sylw'r Cabinet ar 27 Mai 2024.